Teitl: **Peiriannydd Trydanol (Dylunio)**

Lleoliad: **Gweithio Ystwyth**

Cyfarwyddiaeth: **Yr Amgylchedd a Gwasanaethau Cymunedol**

Rhif y Swydd: **BG14458**

Cyflog: **Gradd 8 (£36,298- £40,478 y flwyddyn)**

Oriau: **37 awr yr wythnos**

Cytundeb: **Parhaol**

Crynodeb Swydd

Cynhyrchu lluniadau Dylunio Trydanol a Manylebau Trydanol i'r holl safonau cyfredol. Cydgysylltu ag Uwch Reolwyr, Swyddogion Etholedig, rhanddeiliaid, Penseiri, Peirianwyr Mecanyddol, Syrfewyr Meintiau ac eraill yn fewnol ac yn allanol. Efallai y bydd angen rhywfaint o waith Trydanol Statudol hefyd.

Hysbyseb Lawn

Mae swydd barhaol wedi codi o fewn Is-adran yr Amgylchedd a Gwasanaethau Cymunedol ar gyfer unigolyn profiadol a brwdfrydig i ymuno â thîm cytbwys, profiadol a brwdfrydig.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn gyfrifol am ddatblygu arbenigedd yr adran mewn Dylunio Trydanol ar brosiectau adeiladu newydd, cyfalaf, ac adnewyddu o fewn yr Awdurdod a Phartneriaid eraill sy'n gweithio ar y cyd, ym maes gwasanaethau Dylunio Trydanol.

Bydd y rôl yn cynnwys cysylltu a chyfathrebu'n agos â Pheirianwyr eraill, Penaethiaid, meysydd gwasanaeth eraill, rheolwyr a'r tîm dylunio, y tîm adeiladu a chleientiaid allanol i sicrhau bod prosiectau Dylunio'n cael eu darparu'n effeithiol o fewn terfynau amser a chyllidebau cyfyngedig.

Mae mynediad i gerbyd at ddibenion gwaith yn ofynnol.

Cynhelir sgrinio cyn cyflogaeth trylwyr yn ystod y broses recriwtio.

Dyddiad Cau: **15/06/2023**

Dyddiad Cyfweld: **I'w gadarnhau**